

**Cynlluniau Datblygu a Pholisi / Development Plans and Policy**

*Prif Swyddog Cynllunio / Principal Planning Officer*

*Stan Yates BA(Hons) MBA Dip EP MRTPI*

26 Stryd y Castell, Conwy LL32 8AY 26 Castle Street, Conwy, LL32 8AY

LDP Database – Mail Merge

Gofynnwch am / Please ask for: **Tim CDLI**

 **01492 575461**

 **01492 592713**

 **Cdll.ldp@conwy.gov.uk**

Ein Cyf / Our Ref: **P/4/1.7**

Eich Cyf / Your Ref: **N/A**

Dyddiad / Date: **24 Ebrill2009**

Annwyl

**Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004**

**Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004**

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (Rheoliad 17)**

**Cynllun Datblygu Lleol Conwy (2007 – 2022)**

**Rhybudd Ymgynghori Cyhoeddus ar y Cynigion Adnau (i'w harchwilio)**

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi fod y Cyngor wedi cynhyrchu 'CDLI Adnau (i'w archwilio)' ar gyfer ymgynghori, yn dilyn yr ymgynghoriad blaenorol ar Gynllun Datblygu Lleol Conwy (CDLI) 'Strategaeth a Ffafriar'. Mae CDLI Adnau (i'w archwilio) Conwy yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer datblygu a defnydd tir yn y Fwrdeistref Sirol a bydd yn cyflawni strategaeth gynllunio ofodol yn amlinellu lleoliadau datblygiadau newydd tan 2022. Mae Adroddiad Adnau (i'w archwilio) y CDLI bellach yn gam pwysig yn y gwaith o gynhyrchu'r cynllun, ac yn ganlyniad i waith cynhwysfawr o gasglu sail tystiolaeth ac ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r gymuned a chyfranogion. Mae'n amlinellu'r prif heriau sy'n wynebu Conwy, anghenion y gymuned, ac yn amlinellu gweledigaeth, amcanion, strategaeth ofodol, polisïau, lleoliad tai strategol ac an-strategol a dyraniadau cyflogaeth, a gofynion defnydd tir eraill i ddiwallu anghenion cymunedau dros y cyfnod 2007-2022. Ar ôl cael ei fabwysiadu, bydd y CDLI yn cymryd lle'r Fframwaith presennol a Chynlluniau Lleol ar gyfer Conwy.

Mae dogfennau'r CDLI yn cynnwys y 'CDLI Adnau (i'w archwilio)', yr Adroddiad gwerthuso Cynaladwyedd (sy'n cynnwys yr Adroddiad Amgylcheddol), Adroddiad Ymgynghorol dechreuol yn ogystal â dogfennau atodol eraill. I gyfrannu at greu cymunedau cynaliadwy a lleihau'r defnydd o bapur, amgaeaf CD o'r 'CDLI Adnau (i'w archwilio)' a deunydd atodol ar eich cyfer.

Mae'r Cyngor yn eich annog i ddefnyddio'r CD amgaeedig neu edrych ar ddogfennau ar wefan y Cyngor [www.conwy.gov.uk/cynllundatblygulleol](http://www.conwy.gov.uk/cynllundatblygulleol). Er hynny, mae copïau o'r dogfennau hefyd ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio am ddim ym mhrif Swyddfeydd y Cyngor a Llyfrgelloedd Lleol.

Mae'r Cyngor yn dymuno annog ymatebwyr i gyflwyno eu sylwadau ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen gyswllt rhyngwyd uchod a'r ffurflen a ddarperir ar y wefan. Fel arall, mae'n bosibl anfon sylwadau gan ddefnyddio'r ffurflen sylwadau amgaeedig a drwy;

- Anfon eich sylwadau at: **Y Tim CDLI, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, 26 Stryd y Castell, Conwy, LL32 8AY;**

- Anfon eich sylwadau trwy ffacs i **01492 592713**, neu;
- Anfon eich sylw trwy e-bost at [cdll-ldp@conwy.gov.uk](mailto:cdll-ldp@conwy.gov.uk)
- Ymweld ag un o ddigwyddiadau 'galw i mewn' y CDLI Adnau (i'w archwilio) (gweler isod)

Dylai sylwadau (gan gynnwys y rhai sy'n wrthwynebiadau) nodi pa faterion maent yn ymwneud â nhw. Dylai gwrthwynebiadau hefyd nodi pa newidiadau maent yn dymuno'u gweld, y sail dros eu gwneud a'r prawf / profion cyfanrwydd maent yn ymwneud â nhw (gweler isod).

**Bydd 'CDLI Adnau (i'w archwilio)' Conwy yn cael ei gyhoeddi ddydd Llun 27 Ebrill 2009 am gyfnod o 8 wythnos o ymgynghori fydd yn dod i ben ddydd Gwener 12 Mehefin 2009 am 4.30pm.**

Bydd 'CDLI Adnau (i'w archwilio)' Conwy yn cael ei ystyried gan Archwilydd annibynnol a fydd yn asesu a yw'n 'gadarn' ac ystyried y sylwadau a derbynnir. Mae nifer o brofion cyfanrwydd ac maent i'w cael hefyd ar y ffurflen sylwadau neu ar y CD amgaeedig. Dylai gwrthwynebiadau i'r CDLI Adnau (i'w archwilio) gyfeirio at y profion hyn.

Dylai unrhyw sylw sy'n awgrymu datblygu safle newydd, ymestyn safle datblygu, neu'n cynnig ymgorffori safle a wrthodwyd gan yr Awdurdod, gynnwys gwybodaeth ar addasrwydd y safle gyda gwerthusiad cynaladwyedd y cynllun a chyfranogiad cymunedol.

Gallwch hefyd gynnwys cais gyda'ch sylwadau i ni anfon gwybodaeth i gyfeiriad penodol yn rhoi gwybod i chi fod y CDLI wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cynullid Cymru i'w archwilio'n annibynnol a mabwysiadu'r cynllun.

Mae cyfres o ddigwyddiadau 'galw i mewn' wedi eu trefnu i alluogi'r cyhoedd i drafod polisiau gyda swyddogion cynllunio, derbyn copïau o'r ddogfen ymgynghori, a chyflwyno eu sylwadau. Cynhelir y digwyddiadau yn:

1. Llyfrgell Abergele - 30 Ebrill, 9:30am-5:00pm
2. Canolfan Gymuned Llansannan - 7 Mai, 9:30am-5:00pm
3. Canolfan Gymuned Llanfairfechan - 14 Mai, 9:30am-5:00pm
4. Glasdir, Llanrwst, - 19 Mai, 9:30am-5:00pm
5. Llyfrgell Bae Colwyn - 21 Mai, 9:30am-5:00pm
6. Neuadd y Dref Llandudno - 28 Mai, 9:30am-4:30pm

Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Yn Ddiffuant



Stan Yates  
Pen Swyddog Cynllunio  
Gwasanaeth Polisi Cynllunio